# Cyfarfod y Grŵp Ecosystemau Coetir
# Cofnodion yr 8fed Cyfarfod
# Pentre Ifan, Crymych, Sir Benfro.
# 22 Medi 2011

| | |
|---|---|
| Chris Tucker (CT) | Comisiwn Coedwigaeth Cymru (Cadeirydd) |
| Nigel Ajax-Lewis (NA-L) | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| Richard Crompton (RC) | Wildwood Ecology |
| Jim Latham (JL) | CCGC |
| Linda Makepeace (LM) | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol |
| Mark Malins (MM) | Comisiwn Coedwigaeth Cymru (ac Ysgrifenyddiaeth) |
| Celia Thomas (C Th) | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Arfon Williams (AW) | RSBP |

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd CT bawb i'r cyfarfod.

Michelle van-Velzen
Jane Holloway
Chris Smith

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

2.1 Glastir – Creu Coetir

Holodd AW ynglŷn â'r % o geisiadau a dderbyniwyd yn ôl categori (Gwyrdd/Oren/Coch).
Cam gweithredu - CT i roi adroddiad ar y cwestiwn hwn

Dywedodd CT fod proses apêl wedi cael ei sefydlu a bod nifer o geisiadau categori Coch yn cael eu prosesu gan y system apêl newydd. Roedd 250ha o goetir newydd wedi cael ei gymeradwyo yn chwe mis cyntaf y cynllun. Roedd porwr mapiau ar gael i weld gwybodaeth (dolen gyswllt yng nghofnodion y 7fed cyfarfod)

2.2 Rhoi cyngor i CCGC ynglŷn â ffiniau safleoedd dynodedig

Dywedodd JL fod ffiniau ACA yn aml yn dilyn waliau terfyn, ac roedd hyn yn achosi problemau, yn enwedig pan oedd ffyrdd yn cael eu sythu. Un gwelliant posibl fyddai mynd yn ôl 10m ac ychwanegu llain glustogi. Gofynnodd a allai'r argymhelliad ddod gan y Grŵp Ecosystemau Coetir.

Dywedodd RC fod ar bob SoDdGA ac ACA angen dwy linell (craidd a chlustogi).
Dywedodd AW fod ACA yn darparu clustogfa.
Dywedodd RC eu bod yn cynnig cryn dipyn o her o safbwynt cyfreithiol.
Argymhellodd C Th y gellid cael clustogfa ar goetir, ond credai CT y byddai gorfodi hyn yn arwain at broblemau.

Awgrymodd JL fod potensial i ddiweddaru safbwynt y polisi ar goetir
Gofynnodd CT a ddylid dwyn hyn i sylw'r Grŵp Llywio.

Dywedodd C Th fod y diwydiant amaethyddol yn newid a chyfeiriodd at achos uned odro ddwys, o ran cynllunio a chynaeafu. Angen rhwydwaith gweithredol o gynefinoedd. Dywedodd MM fod angen gwahaniaethu rhwng materion adeiladau (cynllunio) a chynaeafu. Mae'n bosibl y byddai angen taliadau iawndal.

Argymhellodd RC y dylid ychwanegu'r pwnt at restr Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol – gellid cael deddfwriaeth newydd ymhen 5 mlynedd.

Is-grŵp (C Th, JL ac MM) i ysgrifennu crynodeb o'r mater; trafod gyda Diana Reynolds (DR) yna paratoi papur ar gyfer y Grŵp Llywio i'w anfon i Grwpiau Ecosystemau eraill.

Cam Gweithredu - C Th, JL & MM

Gofynnodd AW a allai fod yn brosiect peilot i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

Dywedodd C Th fod peiriannau cloddio'n cael eu defnyddio'n aml i dorri coed bach a oedd yn ymwthio i gaeau. Nid oedd yn fater trwyddedu (<5m3) ond roedd pryder ynglŷn â rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop.

Angen taflen ar rywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop i'w dosbarthu i gyflenwyr y diwydiant amaeth a'r diwydiant adeiladu, cylchoedd peiriannau, cwmnïau cydweithredol ac ati lle gallai gyrwyr peiriannau cloddio ei chodi. Hefyd i gontractwyr ffyrdd fferm ydd, peirianwyr sifil ac Awdurdodau Cynllunio (i'w rhoi i rai sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio). Gellid cyfeirio at rywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop yn Nhystysgrifau Hyfedredd Lantra.

Cam Gweithredu: CT i siarad gyda Richard Siddons (G&Rh) ynglŷn â rhoi gwybodaeth am rywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop ar ofynion torri coed; i siarad gyda Steve Jackson hefyd (Llywodraeth Cymru-NCB).

2.3 Mewnbwn i Integreiddio Rhywogaethau:

Cyfeiriad at y Gwybedog Brith i ddarllen 'angen isdyfiant clir a chanopi caeedig'.

Cam Gweithredu: MM

## 3. Eitemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer y grwpiau ecosystemau - Chris Tucker

3.1 Rhestr taenlen o gynefinoedd coetir

Trafodwyd gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Dywedodd CT ei fod yn aros am fewnbwn gan yr Arbenigwyr Rhywogaethau cyn cwblhau'r gwaith; gofynnodd hefyd i'r Grŵp Ecosystemau Coetir am syniadau eraill cyn anfon y gwaith i ffwrdd ym mis Tachwedd.

Cam Gweithredu: CT i nodi bylchau mewn ymchwil ac i anfon gwybodaeth at Tracey Lovering (TL) cyn 30-11-11.

Cam Gweithredu: <u>Pawb</u> i anfon sylw ar y daenlen at CT.

Roedd Defra yn noddi prosiect Prydeinig ar adar coetir. Roedd RSPB yn ymwneud â hyn. Tynnwyd sylw at yr angen am fwy o brysgoed, roedd yn rhan o Glastir ond roedd angen cyfarwyddiadau iawn, hefyd o safbwynt biomas a pha gellïoedd prysgoed oedd yn addas ar gyfer gwaith. Mae angen cymharu/gwrthgyferbynnu prysgoed v hanesyddol.

Codwyd cwestiynau:

(a) Pa ardaloedd fyddai'n elwa o brysgoedio?
(b) Beth fyddai'r effaith pe na bai hen brysgoed yn cael eu trin, o'u cymharu â phrysgoed sy'n cael eu trin yn rheolaidd?
(c) Sut y mae prysgoed yn cael eu defnyddio gan wahanol rywogaethau?

Cam Gweithredu: MM i adolygu gwaith Ymchwil Coedwigaeth ar brysgoed.

3.2 Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol

- Gofynnodd NA-L a oedd gwybodaeth am Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol a oedd wedi cael eu hadfer, gan ei fod yn un o'r ffactorau a oedd yn dylanwadu ar bolisi. Dywedodd CTh nad oedd unrhyw waith monitro ar ôl adfer yn cael ei wneud.
- Roedd mwy o werth ecolegol i adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol nag i blannu coetir newydd ar dir ffermydd, yn enwedig o ran cysylltiadau mycorhisol.

Cam Gweithredu: MM i adolygu'r deunydd sydd ar gael ar adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol a chysylltiadau mycorhisol.

3.2 Effaith amaethyddiaeth ar goetir

- Roedd ffens yn cael ei godi o amgylch coetir a oedd yn arfer cael ei bori dan Tir Gofal. Angen canllawiau ar gyfraddau stocio, amseroedd, hyblygrwydd, trefniadau pori mewn cylchdro.
- Beth oedd effaith hanesyddol amaethyddiaeth ar goetiroedd dan Tir Gofal ac yn y 25 mlynedd diwethaf?
- Faint o gynlluniau rheoli coetir Tir Gofal oedd wedi cael eu hysgrifennu?
- Faint o'r cynlluniau hynny oedd wedi cael eu gweithredu?

Cam Gweithredu: LM i ofyn i Steve Chambers (Tir Gofal) am wybodaeth.

3.3 Adolygiad o Rwydwaith Bioamrywiaeth Cymru

Codwyd rôl y Rhwydwaith yn y dyfodol. Angen egluro cysylltiadau â'r Un Corff Amgylcheddol arfaethedig.

Cam Gweithredu: CT i anfon ebost Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'r Grŵp Ecosystemau Coetir ac i ofyn i Diana Reynolds sut y bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n ymwneud â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol; beth fydd rôl y Grŵp Llywio?

## 4. Y Diweddaraf am Glastir

Mae taenlen Rhywogaethau wedi'u Targedu Coedwigaeth yn dod yn ei blaen ond rhaid aros am fewnbwn gan rai o'r arbenigwyr rhywogaethau (gweler 3.1). A fydd targedau ar gyfer hectarau o goetir sy'n cael eu rheoli ar gyfer pob rhywogaeth wedi'i thargedu? Sut fydd gwaith monitro'n cael ei wneud ar gyfer y camau gweithredu hyn? Bydd hyn yn rhan o'r gwaith monitro Glastir cyffredinol.

Cam Gweithredu: CT i rannu drafft gyda'r Grŵp Ecosystemau Coetir. Holi ynglŷn â monitro gyda'r tîm Glastir.

4..1 Rhywogaethau coetir nad ydynt yn flaenoriaeth

- Trefniadau monitro coetir ACA syml wedi eu gwneud, ond angen mwy o fonitro er mwyn darparu tueddiadau rhywogaethau cyffredin o adar, ynghyd â Mynegai Adar Coetir (gweler Mynegai Tir Amaethyddol). Angen y dull gweithredu hwn dan Glastir. Gellid cyflwyno system tebyg i'r un ACA i safleoedd sy'n cael eu rheoli.
- Byddai gwybodaeth sylfaenol am ystlumod yn ddefnyddiol er mwyn gallu cyfeirio ati yn y dyfodol.
- Data Monitro Rhywogaethau Cyffredin ar wefan JNCC – angen ychwanegu dosbarthiad at setiau data Cymru.

## 5. Cylch Gwaith – Chris Tucker

- Cylch Gwaith wedi'i adolygu. Angen diffinio cysylltiad rhwng Bioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau a chadw rheolaeth ar gyfer Bioamrywiaeth. Po fwyaf o fioamrywiaeth sydd gennych po gryfaf yw'r ecosystem ac felly'r gwasanaethau ecosystemau.

Cam Gweithredu: Pawb ar y Grŵp Ecosystemau Coetir i anfon syniadau ynglŷn â'r Cylch Gwaith gwreiddiol (pwyntiau 1-6) at CT cyn 31-10-11

Cam Gweithredu: CT i anfon egwyddorion cyffredinol ar gyfer Grwpiau Ecosystemau at bawb.

6. Mapio blaenoriaethau – Jim Latham

Cyflwynodd JL y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r potensial ar gyfer mapio cynefinoedd a chysylltedd gydag Ecosystemau.

Mae angen edrych ar:

(a) Yr ardaloedd mwyaf gwerthfawr o ran cysylltedd;
(b) Yr ardaloedd lle mae'r bygythiad mwyaf;
(c) Yr ardaloedd â'r bygythiad mwyaf sydd â photensial i gael eu hadfer.

Cofnodir tair lefel o wybodaeth:

(a) Mapiau adnodd cyfan;
(b) Ardaloedd wedi eu blaenoriaethu yn (a) ar gyfer camau cadwraeth;
(c) Safleoedd hollbwysig lle roedd colli bioamrywiaeth sylweddol yn amlwg a lle gallai prosiectau enghreifftiol gael eu creu.

Cam Gweithredu: JL i ddosbarthu mapiau Shapefile i'r grŵp– Os MapInfo eu trosi i fformat MIFF ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Gweithdy Grŵp Ecosystemau Coetir i gwblhau'r wybodaeth ac enghreifftiau posibl gan gyfeirio'n benodol at Rhododendron, Jac y Neidiwr, ceirw'n pori a wiwerod llwyd.

Beth oedd safiad INNS ar Rhododendron, Jac y Neidiwr, ceirw a wiwerod llwyd?

Cam Gweithredu: MM i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safiad INNS yn y 10fed cyfarfod

Cam Gweithredu: CT i siarad gyda Chris Smith ynglŷn â Rhododendron, Richard Jones ynglŷn â Jac y Neidiwr, holi ynglŷn â chronfa ddata O21 ar ddifrod wiwerod llwyd, adrodd i'r 10fed cyfarfod.

- Roedd prosiect posibl yn Sir Benfro yn ymwneud â chyswllt ar gyrion coetir cyll i Bathewod/Gloynnod Byw.

Cam Gweithredu: C Th i ddarparu amlinelliad ½ tudalen i CT a JL

- Roedd angen bod yn sensitif wrth ymdrin â pherchnogion tir, a chyfeirio hefyd at ymchwil i blanhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol.

Cam Gweithredu: CT a JL i ddod â'r holl wybodaeth at ei gilydd mewn un ddogfen ar gyfer y 10fed cyfarfod

7. Cynllun Gweithredu - Chris Tucker

Cam Gweithredu: CT i gylchredeg manylion y Cynllun Gweithredu ar sail targedau, ynghyd â thair neges bwysig gan Diana Reynolds.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00 o'r gloch.

8. Unrhyw Fater Arall

Crynodeb o'r Camau Gweithredu

| Gam | Cam Gweithredu | I | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| CT | Dadansoddiad o geisiadau coetir (% G/O/C) | Grŵp Ecosystemau Coetir | |
| CTh ac eraill | Crynodeb o faterion terfynau safleoedd wedi eu gwarchod; trafod gyda DR; papur i'r Grŵp Llywio; Adroddiad i Grŵp Ecosystemau Coetir | Grŵp Llywio<br><br>Grŵp Ecosystemau Coetir | <br><br>10fed cyfarfod |
| CT | Codi mater rhywogaethau anfrodorol goresgynnol gyda G&R y Comisiwn Coedwigaeth a NCB Llywodraeth Cymru | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| MM | Newid y cyfeiriad at y Gwybedog Brith ac ailddosbarthu cofnodion y 7fed cyfarfod. | Grŵp Ecosystemau Coetir | |
| CT | Parthed cynefinoedd coetir nodi bylchau mewn ymchwil – anfon ymlaen at TL | TL | 30-11-11 |
| MM | Adolygu gwaith Ymchwil Coedwigaeth ar brysgoed | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| MM | Adolygiad o ddeunydd llenyddol ar adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol a chysylltiadau mycorhisol. | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| LM | Gofyn am wybodaeth am goetir gan Steve Chambers | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| CT | Rhannu taenlen ddrafft FTS gyda'r Grŵp Ecosystemau Coetir. Cysylltu â thîm Glastir i holi ynglŷn â monitro. | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| Grŵp Ecosystemau Coetir | Sylwadau am y Cylch Gwaith | CT | 31-10-11 |
| CT | Gwybodaeth am egwyddorion cyffredinol gwasanaethau ecosystemau | Grŵp Ecosystemau Coetir | |
| JL | Dosbarthu Mapiau Blaenoriaeth Shapefile | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| MM | Y wybodaeth ddiweddaraf am safiad INNS ar Rh/Jac y Neidiwr/Ceirw/Wiwerod Llwyd | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| CT | Siarad gyda Chris Smith (Rhodo) a Richard Jones (Jac y Neidiwr) | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| C Th. | Amlinelliad ½ tudalen ar gysylltedd Pathewod/Gloynnod Byw | CT & JL | 31-10-11 |
| CT & JL | Coladu gwybodaeth am gysylltedd. | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| CT | Dosbarthu gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu ar sail targedau, ynghyd â 3 phrif neges gan DR. | Grŵp Ecosystemau Coetir | 10fed cyfarfod |
| JL | Dewis lluniau ymweliad maes | CT | |